CERTIFIED A TRUE COPY- NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES- HYWEL AP DAFYDD 8/5/2007

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2007 Rhif 1425 (Cy.129 )

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Corfforaeth Addysg Uwch Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (Diddymu) 2006

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r gorfforaeth addysg uwch a sefydlwyd i gynnal Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ("y Gorfforaeth"). Mae'n darparu ar gyfer trosglwyddo pob eiddo, hawl a rhwymedigaeth yr oedd gan y gorfforaeth hawl iddynt neu yr oedd yn ddarostyngedig iddynt yn union cyn ei diddymu i gwmni o'r enw Royal Welsh College of Music and Drama Limited ("y Coleg") ac mae'n diogelu hawliau ei chyflogeion drwy gymhwyso adran 127 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988.

Cwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau yw'r Coleg sy'n is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr y gorfforaeth addysg uwch o'r enw Prifysgol Morgannwg. Cwmni elusennol yw'r Coleg a sefydlwyd at ddibenion addysgol yn unig.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2007 Rhif 1429 (Cy.129 )

## ADDYSG

## Gorchymyn Corfforaeth Addysg Uwch Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (Diddymu) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *21 Rhagfyr 2006* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ionawr 2007* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 128 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), ac yntau wedi ymgynghori â'r gorfforaeth addysg uwch o'r enw Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ("y Gorfforaeth")(**3**) a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a chyda chydsyniad y corff corfforaethol o'r enw Royal Welsh College of Music and Drama Limited ("y Coleg"), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Corfforaeth Addysg Uwch Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (Diddymu) 2006 ac fe ddaw i rym ar 1 Ionawr 2007.

**2.** Ar 1 Ionawr 2007 mae'r Gorfforaeth i'w diddymu ac mae'r cyfan o'i eiddo, ei hawliau a'i rhwymedigaethau i'w trosglwyddo i'r Coleg, sef corff corfforaethol elusennol a sefydlwyd at ddibenion addysgol yn unig.

**3.** Mae adran 127 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 i fod yn gymwys i unrhyw berson a gyflogir gan y

(**1**) 1998 p.40. Diwygiwyd adran 128 gan Ddeddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992 (p.13), Atodlen 8, paragraff 34; Deddf Elusennau 1993 (p.10), Atodlen 6, paragraff 30; Deddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21), Atodlen 9, paragraff 16; a Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 (O.S. 2005/3238) (Cy. 243), Atodlen 1, paragraff 12.

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) A sefydlwyd fel corfforaeth addysg uwch o dan adran 121(1) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 yn rhinwedd O.S. 1988/1799.

Gorfforaeth yn union cyn 1 Ionawr 2007 fel petai cyfeiriadau yn yr adran honno–

(a) at berson y mae’r adran honno yn gymwys iddo yn gyfeiriadau at berson a gyflogir felly;

(b) at y dyddiad gweithredol yn gyfeiriadau at 1 Ionawr 2007;

(c) at y trosglwyddwr yn gyfeiriadau at y Gorfforaeth;

(ch) at y Gorfforaeth yn gyfeiriadau at y Coleg.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (**1**)

21 Rhagfyr 2006

Y Prif Weinidog Rhodri Morgan AC

(**1**) 1998 p.38.